## CYNGOR CYMUNED RHOSCOLYN

### Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00pm. Nos Iau, 11 Gorffennaf 2024

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Cynghorydd Barry Thomas
**Cynghorwyr:** Susan Hanbury, Elwyn Owen, William Roberts, Evan Wyn Robertson a Tony Tompson,
Hefyd yn bresennol: Mai Owen - Clerc a Keith Roberts Cynghorydd Sir.

**1. Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Mike Bloor a Iwan Jones.

**2. Datganiad o Ddiddordeb:** – dim

**3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol:** derbyniwyd cofnodion 30 Mai 2024 a 25 Mehefin 2024 fel rhai cywir (30.5.2024 cyn. Cyng. T. Thompson, eilydd Cyng. W. Roberts) a chofnodion (25.6.2024 cyn. Cyng. S. Hanbury, eilydd Cyng. E.W. Robertson).

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 Dywedodd Cyng. T. Thompson ei fod wedi edrych ar fanylion sawl hysbysfwrdd 6 x A4 o Greenbarnes Notice Boards, Notice Board Company (UK) Ltd. ac Amazon.co.uk: Stationery & Office Supplies ac roedd o'r farn mai eitem AF30/6A4 o Greenbarnes oedd y dewis gorau i'w osod ar y lloches fws ym Mhontrhydybont. Penderfynwyd yn unfrydol i brynu hwn.

4.2 Roedd yr ymholiadau parthed y problemau parcio ym Mhontrhydybont yn parhau.

4.3 Roedd yr Adran Briffyrdd am ail edrych ar wyneb y ffordd rhwng yr ysgol gynradd a'r Tai Cyngor yn Rhoscolyn.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

5.1 Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd a'r garej bresennol, codi annedd newydd gyda balconïau a chodi tŷ cwch ar wahân, addasu'r fynedfa bresennol i gerbydau, newid y tanc septig am un newydd ynghyd â gwaith tirlunio meddal a chaled - Ystyriwyd y byddai'r datblygiad arfaethedig yn difetha cymeriad yr AHNE a byddai'r cynnydd tebygol mewn traffig yn achosi tagfeydd pellach ar y ffordd fynediad cul - bydd angen rheolaeth draffic ofalus er mwyn osgoi creu trafferthion i ddefnyddwyr eraill os geith ei ganiatau..

**6. Penderfyniadau Cynllunio** - dim

**7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

7.1 Cychwyn Cynghrair Caergybi
7.2 ULlC Ymateb i egwyddorion amgylcheddol targedau llywodraethu a bioamrywiaeth Ymgynghoriad
7.3 Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - dyddiad newydd 18.7.2024

**8. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd: adroddiad ariannol SAC am y chwarter cyntaf (1.4.2024 i 30.6.2024) ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Roedd y gwariant yn ychydig llai na'r disgwyl gan na fu angen talu i gyfieithydd a dim

ond un bil am a gafwyd gan Archwilio Cymru yn ystod y cyfnod (disgwylir pedwar arall yn y flwyddyn ariannol) felly bydd angen sicrhau cadw digon o arian wrth gefn ar gyfer y rhain.

8.1 Taliadau ers y cyfarfod : cytunwyd i dalu'r rhain:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Archwilio Cymru | £325 | Archwilydd Mewnol | £150 |
| HMRC | £108.8 | Un Llais Cymru | £128 |

Cytunwyd i ofyn am bris am dacluso'r wefan ac i dalu unrhyw anfoneb a dderbyniwyd am wariant a gytunwyd arno yn flaenorol.

**9. Adroddiadau Cynghorwyr** - dim

**10. Cyfarfod nesaf 22 Awst 2024**

---

## RHOSCOLYN COMMUNITY COUNCIL

### Council Meeting Minutes - 7.00pm. Thursday, 11 July 2024

**Present:** Chair: Councillor Barry Thomas
**Councillors:** Susan Hanbury, Elwyn Owen, William Roberts, Evan Wyn Robertson and Tony Tompson,
Also present: Mai Owen – Clerk and County Councillor Keith Roberts

**1. Apologies: Councillors** Mike Bloor and Iwan Jones.

**2. Declaration of Interest:** – none

**3. Minutes of previous meeting:** the minutes of 30 may 2024 and 25 Jume 2024 were accepted as correct (prop. Cllr. T. Tompson, sec. Cllr. W. Roberts.) and (25.6.2024 prop. Cllr. S. Hanbury, sec. Cllr. E.W. Robertson).

**4. Matters arising from the minutes**

4.1 Cllr. T. Thompson had looked at the details of several 6 x A4 sheet notice boards from Greenbarnes Noticeboards, Notice Board Company (UK) Ltd. and Amazon.co.uk: Stationery & Office Supplies and was of the view that Ref AF30/6A4 from Greenbarnes was the best choice for attaching to the bus shelter in Pontrhydybont. Resolved unanimously to purchase this.

4.2 The parking issues in Pontrhydybont were ongoing.

4.3 The Higways Department were due to inspect the road surface between the primary school and the Council Houses in Rhoscolyn.

**5. Planning Matters**

5.1 **FPL/2024/133 Borthwen, Rhoscolyn**

Full application for the demolition of the existing dwelling and garage, erection a new dwelling with balconies and erection of detached boathouse, alterations to the existing vehicle access, replace existing septic tank with new septic tank together with soft and hard landscaping - It was considered that the proposed development would spoil the character of the AONB and that the likely increase in traffic would cause further congestion on the narrow access road. If agreed the amount of construction traffic would require careful management to avoid becoming a problem to other road users.

**6. Planning Decisions -** none

**7. Correspondence – submitted and noted:**

7.1 Starting Holyhead Alliance.

7.2 OVW Response to environmental principles governance and biodiversity targets consultation.

7.3 Town and Community Councils Liaison Forum - new date 18.7.2024

**8. Financial Matters**

Submitted: The RFO's financial report for the first quarter period of 1.4. 2024 to 30.6.2024 together with bank reconciliations, statements and copies of the accounts. The expenditure was slightly less than expected in that period as there had been no translation costs and only one bill received from Audit Wales (there could be four more in the current financial year). There was a need to ensure that sufficient fund was put aside for this.

8.1 Payments – agreed as follows:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Audit Wales | £325 | Internal Audit | £150 |
| HMRC | £108.80 | One Voice Wales | £128 |

It was agreed to request a price for tidying up the website and to pay any invoice received for previously agreed expenditure.

**9.** Councillors' Reports - none

**10.** Next Meeting 22 August 2024